**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Rhagfyr 2012**

**PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 I roi diweddariad i Aelodau am y gwaith sy'n cael ei wneud o dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC).

## Cefndir

2 Cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub y byddai adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno am y cynnydd a wneir yn y PMC ynghyd ag unrhyw gynigiadau sydd angen cymeradwyaeth penodol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Gwybodaeth

3 Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y PMC yng ngorsaf dân ac achub Llandrindod ar 20fed Tachwedd 2012. Roedd y Cadeiryddion, Dirprwy Gadeiryddion, Prif Swyddogion Tân a Dirprwy Brif Swyddogion Tân y tri ATAau yng Nghymru yn bresennol.

4 Trafodwyd y materion canlynol yn y cyfarfod:

- Bu cryn drafodaeth dros ohebiaeth gweinidogol cyn i Gadeirydd y PMC, y Cynghorydd Tudor Davies, gwrdd â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ddiwedd mis Tachwedd.

- Roedd y fframwaith mesur wedi ei diwygio a'i dosbarthu i bob arweinydd prosiect, ynghyd â'r ddogfen ganllaw ar y mesur.

- Mae'r esboniadau o'r cyfrifiadau ariannol ar gyfer yr adroddiad peiriannau pwmpio wedi eu cwblhau a diwygiwyd y ffigyrau yn unol â hynny.

- Cadarnhawyd y blaen raglen waith ar gyfer y Trefniadau Rheoli Cenedlaethol ac mae'r gwaith cynnar wedi nodi y gellid arbed £30,000 y flwyddyn drwy integreiddio Rhestr Tir ac Eiddo Cenedlaethol yr Awdurdodau Lleol (NLPG) i'n systemau Rheoli a Meistroli. Hefyd, drwy dreialu system Trosglwyddo Digwyddiadau yn Electronig ac Uniongyrchol (DEIT) fe amcangyfrif y gellid arbed 3000 o oriau'r flwyddyn os caiff ei roi ar waith ar hyd Cymru gyfan.

5 Yn ychwanegol, gwnaeth aelodau'r Pwyllgor:

i. nodi ac argymell bod y tri Gwasanaeth yn ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol;
ii. nodi'r cynnydd sydd yn cael ei wneud wrth gysoni contractau caffael y tri Gwasanaeth ac roeddent yn cydnabod gwerth y prosiect a'r arbedion posib a fyddai'n cael eu gwireddu drwy sefydlu Cynllun Caffael Contractau ar gyfer Cymru gyfan;
iii. nodi'r cynnydd sydd yn cael ei wneud gyda ffrydiau gwaith yr adolygiad caffael ac roeddent yn cefnogi'r bwriad i geisio cefnogaeth gan weithwyr proffesiynol allanol i sicrhau bod y systemau cyfredol yn eglur ac yn adlewyrchiad cywir. Cadarnhaodd yr aelodau gylch gorchwyl y ffrydiau gwaith yn ogystal;
iv. nodi cyfeiriad arfaethedig gwaith y tîm prosiect Hyfforddiant a Datblygiad sydd wedi ei gymeradwyo eisoes. Mae'r meysydd allweddol i'w hadolygu wedi eu nodi i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau fel y gallwn gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cyfleodd hyfforddi a datblygu ar draws y GTA yng Nghymru;
v. gydnabod a chefnogi'r cynnig Lleihau Risg i Gymunedau sydd yn gofyn am gydweithio agosach rhwng y tri gwasanaeth. Mae'r tri maes gwaith allweddol yn cynnwys rhannu data, targedu a phroffiliau risg gwell a dull cyson o werthuso ac adrodd ar draws y tri Gwasanaeth. Bu i'r Aelodau gydnabod yn ogystal y contract ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol i'r adrannau

Diogelwch Tân i Fusnesau, sydd yn sicrhau cysondeb i'r GTA yng Nghymru wrth orfodi Gorchymyn Diogelwch Tân (2005). Roedd y tri Gwasanaeth yn rhan o'r broses o lunio'r contract hwn;

vi. nodi'r gwaith sydd yn cael ei wneud i alinio'r gwasanaethau cyfreithiol ar sail Cymru gyfan. Mae manyleb ar y cyd ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol yn ymwneud â'r gyfraith cyflogaeth wedi ei hysgrifennu ac mae 19 o ymatebion wedi eu derbyn. Bu i'r Aelodau nodi yn ogystal y contract gwasanaethau cyfreithiol cyffredinol a gafodd ei dyrannu'n ddiweddar sydd yn cynnwys darpariaeth i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin a Gogledd Cymru fanteisio arni yn y dyfodol;

vii. nodi'r strategaeth gwmpasu TGCh, oherwydd natur y prosiect hwn bydd y broses o gasglu gwybodaeth yn darparu gwybodaeth gychwynnol ar safle presennol y tri gwasanaeth o ran; polisi a strategaeth, asedau ac adnoddau.

6 Cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd hyd yma yw £2,435,500 ar hyd y tri Gwasanaeth dros gyfnod o 5 mlynedd.

**Argymhelliad**

7 Gofynnir i Aelodau nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.